

TAFLEN NEWYDDION CYMUNEDOL
LLANDYFAELOG
COMMUNITY NEWSLETTER



CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

Croeso i Rifyn Nadolig Daflen Newyddion Chwarterol Cymunedol Llandyfaelog.

Cyhoeddir y Daflen Newyddion trwy'r Wefan Gymunedol www.llandyfaelog.org.uk, ond os hoffech gael eich cynnwys ar y rhestr dosbarthiad trwy e-bost, cysylltwch ag Arfon Davies Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog Llandyfaelog@btinternet.com

Er eich gwybodaeth mae'r rhannau Gymraeg o'r Cylchlythyr mewn coch â'r Saesneg yn glas.

Bydd y Clerc yn hapus i dderbyn eich sylwadau neu erthyglau ar gyfer y Rhifyn nesaf erbyn 1af Mawrth 2019.

Welcome to the Christmas Edition of the Llandyfaelog Quarterly Community Newsletter.

The Newsletter is published on the Community Website www.llandyfaelog.org.uk, however if you would like to be included on the email distribution list, please contact Arfon Davies, Llandyfaelog Community Council Clerk Llandyfaelog@btinternet.com

For ease of reference the parts of the Newsletter in Welsh are in red with the English in Blue.

The Clerk will be happy to receive your comments or articles for the next Edition by 1st March 2019.

Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor	Council Meeting Dates
3 Ionawr 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog	3 January 2019 7.30pm Llandyfaelog Hall
7 Chwefror 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog	7 February 7.30pm, Llandyfaelog Hall
7 Mawrth 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog	7 March 7.30pm, Llandyfaelog Hall

Pabïau yn Dir Gof, Llandyfaelog ar gyfer Sul y Cofio **Poppies at Tir Gof, Llandyfaelog for Remembrance Day**





Wasanaeth Carolau Mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gar

Bydd Gwasanaeth 2018 yn cael ei gynnal ar Nos Sul 9fed Ragfyr 2018 am 7.30yh yn Eglwys Llandyfaelog. Mae'n draddodiad fod Cadeirydd y Sir yn cynnal y gwasanaeth yn ei ardal leol, ac eleni mae Carys Thomas o'r pentref wedi cael ei hethol yn Gadeirydd, felly bydd aelodau'r mudiad a ffrindiau, yn ymweld gyda Llandyfaelog.

Fe fydd y gwasanaeth yn cael ei arwain gan aelodau mudiad y sir, gan gynnwys perfformiadau ac eitemau a ddaeth i'r brig yn Eisteddfod CFFI. Fydd y noson yn un ysgafn a chymdeithasol i ddathlu trothwy'r Nadolig.

Fe fydd casgliad y gwasanaeth yn mynd tuag at Elusen Tir Dewi.

Carmarthenshire Young Farmers Annual Carol Service

The 2018 Service will be held on Sunday 9th December 2018 at 7.30pm at Llandyfaelog Church.

It is tradition that the County Chairman holds the service in their local area, and this year, Carys Thomas of the village has been elected as Chairman, so members of the Federation and friends will be visiting Llandyfaelog.

The service will be led by members of the County Federation, including performances and items that excelled at the YFC Eisteddfod. The evening will be a light hearted and social way to celebrate that Christmas is on the way.

A collection will held at the service for the Tir Dewi Charity.

Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2018.

Cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus iawn yn Neuadd Llandyfaelog ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 1af gyda'r cystadlu yn frwd ac yn niferus yn gyffredinol drwy'r dydd. Ystyrir hon yn un o'r eisteddfodau gorau erioed, yn enwedig yn yr adran leol. Y beirniaid eleni oedd :- Cerdd – Rhiannon Lewis, Cwmann; Llefaru a Llên – Y Prifardd Gwenallt Llywd Ifan, Talybont; Celf – Gareth Morgan, Cwmffrwd.

Bu Geraint Rees, Idole yn cyfeilio ar gyfer y cystadlaethau lleol a Jonathan Morgan, Y Tymbl ar gyfer y cystadlaethau agored.

Llywyddion yr eisteddfod eleni oedd Emyr Wynne Jones, Cwmffrwd yn y prynhawn a Gwen Redvers Jones, Cwmffrwd yn yr hwyr. Cafwyd anerchiad a chyfraniad gwerthfawr gan y ddau lywydd, ill dau â chysylltiad agos iawn gyda bro'r eisteddfod a'i gweithgareddau.

Enillwyd Cadair yr Eisteddfod gan Elan Grug Muse o Gaerdydd gyda cherdd rydd ar y testun "Gorwel". Roedd cystadleuaeth y gadair yn un safonol a niferus iawn o ran ymgeiswyr ac fe bleswyd y beirniad yn fawr iawn. Yr oedd y gadair hardd yn rhoddedig gan Gapel Tabor Llansaint, sydd wedi cau bellach. Enillwyd Tlws yr Ifanc gan Carwen Richards, Ffarmers, Llanwrda. Roedd y tlws a'r wobwr ariannol yn rhoddedig gan Huw John, Peniel.

Cyflwynwyd Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimsey i Lois Dafydd, Llangynnwr am fod y cystadleuydd lleol o dan 11 oed sydd yn dangos yr addewid fwyaf. Cyflwynwyd Ysgoloriaethau Dr. Ron a Mrs. Betty Rees (cerddoriaeth a llefaru) i'r cystadleuydd gorau yn lleol o dan 16 oed i Llywelyn Owen, Mynydd-y-garreg (cerddoriaeth) ac i Betsan Jones, Cydweli (llefaru). Cyflwynwyd cwpan her i'r ysgol leol uchaf ei marciau i Ysgol Mynydd-y-garreg a chyflwynwyd cwpan her am lwyfannu eitem gan fudiadau lleol i gapel Penygraig.

Mae aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi pob cyfraniad a chefnogaeth tuag at lwyddiant yr eisteddfod. Dyma restr o'r buddugol ymhob cystadleuaeth.

CERDD (lleol)

Unawd Bl. 1 a 2 – 1. Lewis Owen, 2. Llian Jones, 3. Alaw Evans; Unawd Bl. 3 a 4 – 1. Elli Williams, 2. Harri Jones, 3. Jac Howells; Unawd Bl. 5 a 6 – 1. Lois Dafydd, 2. Cari Gibbon, 3. Llywelyn Owen; Unawd offeryn cerdd ysgolion cynradd – 1. Llywelyn Owen; Parti unsain dan 16 – 1. Ysgol y Fro, 2. Blwyddyn 5 Llangynnwr a Ysgol Glan-y-fferi (cydradd), 3. Bl. 1 Llangynnwr a Bl. 6 Llangynnwr (cydradd).

LLEFARU (lleol)

Llefaru Bl. 1 a 2 – 1. Ela Wyn Gibbard; Llefaru Bl. 3 a 4 – 1. Harri Jones, 2. Gruffydd Roberts, 3. Lisa Gibbard; Llefaru Bl. 5 a 6 – 1. Betsan Jones, 2. Lois Dafydd; Grŵp llefaru dan 16 – Adran y Mynydd.

CELF A THECHNOLEG (lleol)

Celf Blwyddyn 1 a 2 – 1. Ren Davies, Ysgol Mynydd-y-Garreg, 2 – Tyler Richards, Ysgol Glan-y-fferi, 3 – Paige Thomas, Ysgol Glan-y-fferi; Celf Blwyddyn 3 a 4 – 1. Griff Beynon, Ysgol Glan-y-fferi, 2. Ann Robles, Ysgol Mynydd-y-garreg, 3. Hannah Green, Ysgol Mynydd-y-garreg; Celf Blwyddyn 5 a 6 – 1. Poppy Millross, Ysgol Glan-y-fferi, 2. Erin Gibbon, Ysgol Mynydd-y-garreg, 3. Llew Owen, Ysgol Mynydd-y-garreg;

CERDD (agored)

Unawd Bl. 1 a 2 neu iau – Teifi Evans; Unawd Bl. 3 a 4 – Cerys Knight; Unawd Bl. 5 a 6 – Gwawr Owen; Unawd Bl. 7, 8 a 9 – Seren Weston; Unawd Bl. 10 ac o dan 19 oed – Celt Llywelyn Jones; Unawd Alaw Werin dan 19 – Seren Weston; Unawd offerynnol dan 19 – Seren Weston; Unawd sioe gerdd dan 30 oed – Lili Mai; Unawd dan 30 – Celt Llywelyn Jones; Emyn dan 50 – Betsan Lewis a Seren Weston (cydradd); Emyn dros 50 – Geraint Rees; Cenwch i'm yr Hen Ganiadau – Gerwyn Rhys; Her Unawd – David Mayberry.

LLEFARU (agored)

Llefaru Bl. 1 a 2 neu iau – Awel Lewis; Llefaru Bl. 3 a 4 – Cerys Knight; Llefaru Bl. 7, 8 a 9 – Seren Weston; Darllen darn o'r Ysgrythur ar y pryd, dros 19 – Maria Evans; Her Adroddiad – Maria Evans.

LLENYDDIAETH

Y Gadair – Elan Grug Muse, Caerdydd; Tlws yr Ifanc – Carwen Richards, Ffarmers, Llanwrda; Englyn – Rachel James, Boncath; Gorffen Limrig – Glyn Jones, Dinbych; Blwyddyn 7-9 llunio blog – 1. Andreas Richards, Ysgol Bro Myrddin, 2. Trystan Tyler, Ysgol Bro Myrddin, 3. Gwenllian Miles Jones, Ysgol Bro Myrddin.

* * *

Llun Eist2018 – Y Cadeirio

Mae'r llun yn dangos Bardd y Gadair 2018, sef Elan Grug Muse o Gaerdydd ac enillydd Tlws yr Ifanc, sef Carwen Richards, Ffarmers gyda'r beirinad y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan Aled Evans a Chadeirydd Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cyng. Mansel Charles.



Luniau eraill

Rhai o enillwyr yr adran leol yn yr eisteddfod.



CAROL SINGING
CANU CAROLAU

LLEW COCH/ RED LION

LLANDYFAELOG

TUESDAY 18 DECEMBER

7.30 P.M.

ARTISTIAID

CÔR MEIBION DYFFRYN TYWI

BAND CRWBIN

FREE ADMISSION

RAFFLE IN AID OF

LLANDYFAELOG

DEFIBRILLATOR FUND



Pwyllgor Neuadd Gymunedol
Llandyfaelog
Community Hall Committee

Clwb 100 Nadolig 2018
100 Club Christmas 2018

1 ^{af} / 1 st	£50	39	Eleri Hughes
2 ^{il} / 2 nd	£30	94	Carys Thomas
3 ^{ydd} / 3 rd	£25	2	Eifion Jones
4 ^{ydd} / 4 th	£25	40	Sandra Dinino
5 ^{ed} / 5 th	£20	71	Alan Jones, Star Forge
6 ^{ed} / 6 th	£20		Rheinallt Jones
7 ^{fed} / 7 th	£15	34	Geraint Rees
	£10	47	Lois Phillips
	£10	105	Kris Owen
	£10	81	John Williams
	£10	20	Penny Stone
	£10	38	Ann Rees

Clwb 100 Rhagfyr
December 100 Club

1 ^{af} / 1 st	£30		Mike Phillips, Cwm Farm
2 ^{il} / 2 nd	£20	52	Sandra Lines
3 ^{ydd} / 3 rd	£10	19	Liz Davies

Clwb 100 Hydref
Autumn 100 Club

1 ^{af} / 1 st	£30	2	Eifion Jones
2 ^{il} / 2 nd	£20	71	Alan Jones, Star Forge
3 ^{ydd} / 3 rd	£10	11	Trevor Lloyd

Seremoni Goleuadau Nadolig Llandyfaelog yn y Llew Coch
Llandyfaelog Christmas Lights Ceremony at the Red Lion

Bu noson hwylus iawn yng nghwmni Sion Corn ar Nos Lun 3 Rhagfyr yn y Llew Coch Llandyfaelog.

Paul Temple wnaeth perfformio Seremoni Goleuo'r Goeden Nadolig.

Hoffer y Pwyllgor estyn diolch i Fand Croesyceiliog, Côr Meibion Dyffryn Tywi a Phlant Ysgol y Fro am yr adloniant â'r gerddoriaeth. Diolch yn fawr i'r Llew Coch unwaith eto am ei chroeso. Diolch hefyd i Jenny Jones am ddarparu'r goeden a'r cynorthwywyr am roi'r goeden yn ei le.



Stori flynyddol Sïon Corn / Father Christmas' Annual Story

A very entertaining evening was spent with Father Christmas on Monday 3rd December in the Red Lion, Llandyfaelog.

Paul Temple performed the Christmas Tree Lighting Ceremony.

The Committee would like to thank Band Croesyceiliog, Côr Meibion Dyffryn Tywi and the Children of Ysgol y Fro for the entertainment and music. Thanks also to the Red Lion for their welcome once again. Thanks also to Jenny Jones for providing the tree and the helpers for putting the tree in place.



Côr Meibion Dyffryn Tywi



Paul Temple yn troi'r goleuadau arno / Paul Temple switches the lights on

Eisteddfod Llandyfaelog 2018

Cynhaliwyd swper arbennig yn Y Llew Coch, Llandyfaelog ar Hydref 22ain i godi arian tuag at Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2018. Codwyd swm sylweddol o arian tuag at yr eisteddfod a diolchwyd i Sarah Withers a'r tîm yn Y Llew Coch am noddi'r noson ac i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr yr eisteddfod am eu cyfraniad hwy at noson lwyddiannus.

Y gŵr gwâdd eleni oedd Colin Evans o Bancyfelin ond un a aned ac a fagwyd ym mro'r eisteddfod. Cyflwynodd hanes ddifyr o'i fagwraeth yng Nghroes-y-ceiliog a'i brysurdeb gyda'r Mudiad Ffermwyr Ifanc a Chapel Penygraig. Soniodd hefyd am ei ddiddordeb a'i lwyddiant gyda magu gwartheg llaeth ac fel Cadeirydd Sioe Laeth Cymru.

Yn ystod y noson cyflwynwyd cadair yr Eisteddfod ar ran Capel Tabor Llansaint gan Bethan a Hywel Gibbon a Thlws yr Ifanc gan Huw John. Hefyd cyflwynwyd tystysgrif Cymdeithas Eisteddfodau Cymru i Eirwen Jones am ei chyfraniad fel gwirfoddolwr at Eisteddfod Llandyfaelog dros gyfnod hir, gwobr a gyflwynwyd iddi yn wreiddiol yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ym mis Awst.

Yn y lluniau fe welir Eirwen Jones yn derbyn ei thystysgrif wrth Geraint Roberts, Ysgrifennydd yr Eisteddfod ac yn yr ail lun fe welir Colin Evans gyda'r Ysgrifennydd.

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2018 ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 1af yn Neuadd y Pentref gyda'r cystadlu yn yr adran leol yn cychwyn am 1 o'r gloch a'r cystadlaethau agored am 3.30 a 6 o'r gloch. Y dyddiad cau ar gyfer y cyfansoddiadau llên yw Tachwedd 22ain. Mae rhaglen yr eisteddfod ar wefan yr Eisteddfod, sef www.eisteddfodllandyfaelog.cymru ac ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, sef steddfota.org. Am wybodaeth bellach cysyllter gyda'r Ysgrifenyddion ar 07814701079.





Ddiffibriliwyr ar gyfer y Cymuned / Community Defibrillators

Gynhaliwyd noson o greu ymwybyddiaeth am ddiffibriliwyr (defibrillators) yn y Llew Coch ar nos Lun, Hydref 29ain o dan hyfforddiant Glyn Jones, Glan-y-fferi. Roedd y noson yn rhan o'r ymgyrch i geisio prynu a lleoli nifer o'r diffibrilwyr ar draws plwyf Llandyfaelog. Diffibriliwr yw offer sydd yn medru achub bywyd person sydd a diffyg ar y galon.

An evening of defibrillators awareness-raising was held in the Red Lion on Monday, 29th October by Glyn Jones, Ferryside. The night was part of the campaign to try and purchase a number of defibrillators for the Llandyfaelog Community. A defibrillator is a device that can save the life of an individual with heart failure.



Hanes Cymunedol Community History

Gweler isod rhai eitemau hanes diddorol ein cymuned, gweler y wefan gymunedol am ragor o wybodaeth.

Bancycapel

Mae Bancycapel yn cael ei enw o hen gapel ar glawdd o dir uchel sef Mynydd y Cyfor, ar ben deheuol y bryn ger y groesffordd ym mhentrefan Bancycapel. Ar y clawdd hwn mae tomenni o dir yn aros sy'n nodi safle Capel Cynheiddon. Roedd y capel yn sefyll yn ystod y 17eg ganrif, ond erbyn hyn mae fwy neu lai wedi diflannu. Soniwyd am ei sylfeini yn De situ Brecheniauc y 12fed ganrif, dogfen sy'n trafod safleoedd claddu hynafol Cymreig.

Capel Bancycapel

Cyn yr adeiladwyd y Capel ym 1834, cynhaliodd y Methodistiaid lleol eu cyfarfodydd ym Mhenymaes, Bwlchgywynt, Fforest ac Iscwm ymhlith eraill. Daeth y pulpud cyntaf yn yr eglwys o Gapel Heol y Dŵr, Caerfyrddin. Roedd bwriad i ychwanegu cloc i'r capel, ond cyn i'r adeilad gael ei gwblhau cafodd ei symud i Eglwys Llangain. Roedd y tu mewn yn syml iawn gyda phedair sedd yn y blaen ac ar bob ochr a meinciau yn y canol; gwnaed rhai adnewyddiadau ym 1869.

Cloigyn

Yn y pentrefan hwn roedd capel all-blwyfol a ddefnyddiwyd ar gyfer gweinyddu priodasau yn unig. Dim ond y sylfeini sydd ar ôl. Ar bont Cloigyn mae arysgrif yn nodi y talwyd cost codi'r bont gan ddirwyon a osodwyd ar 'Gardis' oedd yn 'gyrru eu ceffylau a'u certi ar gyflymder uchel' yn ôl ac ymlaen o'r odynau calch ym Meinciau.

Glanrhyd

Maenordy Sioraidd yw Glanrhyd, a adeiladwyd ym 1732 a'i osod o fewn parc prydferth; roedd yn gartref i'r teulu Saunders.

Please see below some interesting historical items from our Community, please see the Community Website for more information

Bancycapel

Bancycapel takes its name from an old chapel that stood on a bank of high ground Mynydd y Cyfor, at the southern end of the hill near the crossroads in the hamlet of Bancycapel. On this bank mounds of earth remain which mark the site of Capel Cynheiddon. The chapel was standing during the C17th, but has now practically disappeared. Its foundations were mentioned in the C12th De situ Brecheniauc, a document detailing ancient Welsh burial grounds.

Capel Bancycapel

Before the Chapel was built in 1834, local Methodists held their meetings at Penymaes, Bwlchgywynt, Fforest and Iscwm among others. The first pulpit in the church came from Water Street Chapel, Carmarthen. It was intended to add a clock to the chapel however before the building was completed it was removed to Llangain Church. The interior was very simple with four seats in front and on each side with benches in the centre; some renovations were made in 1869.

Cloigyn

In this hamlet there was an extra-parochial chapel used only for the the solemnization of marriages. Only the foundations remain. On Cloigyn bridge is an inscription stating that the cost of erecting the bridge was met by fines imposed on 'Cardis' who 'drove their horses and carts at an unlimited speed' to and from the lime kilns at Meinciau.

Glanrhyd

Glanrhyd is a Georgian manor house, built in 1732 and set within a fine park; it was home to the Saunders family.